

#27

**Disgwyliadau o
ran Cymorth
Ymarferol**

*Os yw'n bwysig i chi,
yna mae'n bwysig i
ni....*

Pam cynnal yr adolygiad hwn?

Pwrpas y thema

Deall safbwyntiau cwsmeriaid ynghylch y math o gymorth ymarferol y maent yn disgwyl ei gael gyda mân dasgau yn y cartref ac o'i amgylch.

Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth 2021

Dymaddywedoch chi...

Diolch am eich cefnogaeth!


Cawsom wybodaeth gan 305 o'n cwsmeriaid

Dyma'r ymatebion a gafodd ein Tîm Cydlynw e2i:


1/ Ydych chi'n teimlo bod angen mwy o gymorth ymarferol arnoch i fyw'n fwy annibynnol (e.e. addurno tu mewn eich eiddo/gosod silffoedd/garddio)?

Atebwyd gan: 305

Nid atebwyd gan: 0



2/ Os "Ydw" oedd eich ateb i'r cwestiwn uchod, rhowch fanylion:




Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

- "Rwy'n rhy hen i'w wneud fy hun ac nid wyf yn adnabod neb y gallaf ymddiried ynddo i wneud y gwaith."
- "Mae'n anodd dod o hyd i rywun dibynadwy, cost-effeithiol."
- "Addurno, gosod silffoedd, hongian lluniau, cael gwared â pheiriannau'r gegin/hen ddodrefn."
- "Byddai'n dda gwybod am rywun all fynd â phethau i'r ganolfan ailgylchu. Does gen i ddim car i allu mynd â phethau."
- "Byddai gen i restr hir o dasgau. Rydych yn poeni am wahodd pobl ddieithr i'ch cartref. Pe bai ateb yn gallu gwirio ac argymhell gweithwyr, byddai hynny'n grêt."
- "Byddai hynny'n wych! Rwy'n rhy wanllyd i wneud pethau fel hyn. Byddai'n wych gallu talu rhywun rwy'n ymddiried ynddo i wneud y gwaith yn iawn."
- "Mae cael rhywun i gynorthwyo yn anodd ac yn ddrud, ac mae angen i chi adnabod rhywun y gallwch ymddiried ynddo."
- "Gosod silffoedd, rhoi dodrefn at ei gilydd (er enghraifft ffan newydd), newid bylbiau golau."
- Gan fy mod i'n defnyddio cadair olwyn ac nad yw fy ngŵr yn hwylus iawn, byddwn wrth fy modd yn cael peth cymorth."
- "Rwy'n fam sengl i 5 o blant; byddai cael cymorth dibynadwy yn help mawr. Byddwn yn disgwyl talu am y gwasanaeth, ond byddai cael gwasanaeth fforddiadwy a dibynadwy yn gwneud byd o wahaniaeth."
- "Byddai angen i'r gwasanaeth fod yn fforddiadwy gan nad oes gen i lawer o arian yn sbâr, ond mae'n swnio fel syniad ardderchog."
- "Byddai hynny'n wych oherwydd nid yw fy ffrindiau ar gael bob amser, hyd yn oed pe bai modd gofyn am gyngor yn unig."
- "Byddai addurno'n ddefnyddiol, hongian lluniau/gosod silffoedd."
- "Byddai'n werth y byd cael cymorth i roi dodrefn at ei gilydd sy'n dod mewn darnau ar wahân."
- "Byddai'n ddefnyddiol iawn. Rwy'n cael anhawster gyda'r tasgau hyn oherwydd fy iechyd ac nid oes gen i deulu i'm cynorthwyo."

3/ Os "Ydw" oedd eich ateb i'r cwestiwn uchod, beth sy'n eich atal rhag cael y cymorth hwnnw?


Atebwyd gan: 193 Nid atebwyd gan: 112




4/ Math o lety

Atebwyd gan: 305 Nid atebwyd gan: 0

Ydych chi'n byw mewn:



5/ I wneud yn siŵr ein bod yn clywed gan ystod eang o'n cwsmeriaid, nodwch i ba gategori oedran yr ydych yn perthyn?



Dyma wnaethom ni...

Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Dywedwyd bod Cyfeiriadur Gofal PLANED, sy'n rhoi rhestr o ofalwyr yn ogystal â chrefftwyr y gellir ymddiried ynddynt, braidd yn amleiriog ac y gellid ei gwneud yn haws i gwsmeriaid ei adnabod a'i ddefnyddio; awgrymwyd y dylem ofyn i'r awdur ddod i siarad â ni. (Cam Gwella)
2. At hynny, mae angen archwilio'n fwy helaeth ddetholiad y Gwasanaeth Safonau Masnach o grefftwyr/helpwyr sydd wedi'u gwirio a sicrhau ei fod ar gael i gwsmeriaid ateb. (Cam Gwella)

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd i fod i gwrdd ar 21/09/21 am 10:00. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

Angen gwybod mwy neu godi mater?

e2i /Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni

Anfonwch neges ebost atom:

engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Anfonwch air atom: Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1QP

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: 07500 446611